

# Teithiau Cerdded yn Sir Gaerfyrddin

## Llyn y Fan Fach



Cymedrol/Caled



**GLAW neu HINDDA**  
 mae'n werth dod yma

darganfod.sirgar.com

- 1** O'r maes parcio, ewch ar hyd y llwybr sy'n dilyn yr afon i fyny'r dyffryn.
- 2** Ewch heibio i'r fferm frithyllod gan barhau ar hyd y llwybr a bydd y peiran rhewlifol yn dod i'r golwg. Cyn bo hir byddwch chi'n cyrraedd glan y llyn, sy'n llecyn arbennig i gael picnic neu beth am ichi aros i weld Morwyn y Llyn!
- 3** Gallwch un ai ddychwelyd i'ch car o'r man hwn neu barhau i fyny ochr y mynydd i'r copa. Dilynwch y gefn tua'r gogledd, gan gerdded dros y Picws Du a Fan Brycheiniog hyd nes y byddwch chi'n gweld llwybr ar y chwith sy'n mynd i lawr i gyfeiriad y llwyfandir lle mae llyn arall sef Llyn y Fan Fawr.
- 4** Dilynwch y llwybr ar hyd glan y llyn a'r gefn hyd nes y byddwch yn cyrraedd Llyn y Fan Fach.

### Morwyn y Llyn...

Chwedl llên gwerin sy'n gysylltiedig â Llyn y Fan Fach yw 'Morwyn Llyn y Fan Fach'.

Yn y chwedl mae ffermwr ifanc o'r 13eg ganrif yn llygadu'r ferch brydferthaf iddo ei gweld erioed yn dod o'r llyn. Roedd hi'n dywysoges o deyrnas y tylwyth teg. Bu'n canlyn gyda thywysoges y tylwyth teg drwy bobi bara iddi ac ar ôl ei drydydd ymgais, bu iddi gytuno i'w briodi ar yr amod, pe bai e'n ei bwrw hi dair gwaith, y byddai hi'n ei adael.

Cytunodd y ffermwr yn syth oherwydd roedd hi mor brydferth ac roeddent yn hapus am flynyddoedd gan fagu teulu ar ei fferm ger Myddfai, gyda'i gwaddol hud o anifeiliaid fferm. Gydag amser digwyddodd yr anochel ac fe fwriodd y ffermwr ei wraig. Diflannodd hi yn ôl i'r llyn gan fynd â'r anifeiliaid gyda hi, a gadael y ffermwr gyda'r meibion. Ar ôl i'r meibion dyfu, daethant yn adnabyddus fel "Meddygon Myddfai" a buont yn feddygon yn Llys Brenin Lloegr.

Ar y daith i Llyn y Fan Fach ac oddi yno, beth am aros i wylïo'r brithyllod sy'n neidio yn y Gored/Deorfa.



Oddeutu 5-6 awr

Ddim yn addas ar gyfer cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn.

Ardaloedd Fwdlyd

Taith Gerdded Werdd - oddeutu 5 cilometr. Taith Gerdded Goch - oddeutu 13 cilometr

Adran coch ddim yn addas am teuluoedd.

Gofalus llethrau perylgys

Addas am pawb.

**A4069**  
I Llanymddyfri

**A40**  
I Cronfa Ddŵr Wysg  
Trecastle a  
Sennybridge

**Llangadog**

**Twynllanan**

**Llanddeusant P**

**A40**  
**A483**  
I Llandeilo  
neu Llanymddyfri

Pont ar  
Llechau

Pont  
Newydd

**A4069**

**A4069**  
I Frynaman

**DECHRAU** **1**

Fferm Frithyllod

**4**

**Llyn y  
Fan Fawr**

**3**

**2**  
**Llyn y  
Fan Fach**

Fan  
Brycheiniog

Serth

Serth

Picws Du

Bannau Sir Gâr

**Parc Cenedlaethol  
Bannau Brycheiniog**



Dim i roddfa

